## Edward Davies a llyfryddiaeth

# Y Llysiau sy'n iachau

NID OES unrhyw amheuaeth am y diddordeb cynyddol mewn llysiau meddyginiaethol y dyddiau hyn. 'Dyw y rhesymau am hyn ddim yn eglur a gall fod yn codi'n rhannol o siomedigaeth efo methiant triniaethau confensiynol, ac yn rhannol o ofn sgîl-effeithiau niweidiol cyffuriau'r labordy.

Mae'n debyg fod ymchwilio am lysiau meddyginiaethol cyn hyned â dyn, a'r hyn hoffwn ei wneud yw trafod yn fyr ffynonellau y llysieulyfrau modern. Roedd llawer o'r llysiau a ddefnyddiwn ni heddiw mewn bri ugain canrif cyn Crist.

Daeth y casgliad sylweddol hynaf a ysgrifennwyd o'r Aifft yn y Papyrus Ebers (tua 1500 CC). Mae'n wir for Yr Ymherodr Shen Nung wedi ysgrifennu llysieulyfr yn China tua 2677 CC, ond ymdrin â llysiau gwenwynig wnaeth Shen Nung gan mwyaf.

Fel y mae mewn sawl maes arall, i'r Groegiaid y mae ein dyled am sylfeini yr holl wybodaeth lysieuol gydol y canrifoedd. Cofnodwyd llawer o lenyddiaeth feddygol ganddynt, a gweithiau Hippocras, Galen, Heroditus ac eraill oedd asgwrn cefn triniaethau a damcaniaethau y physigwyr tan diwedd yr 17 ganrif. Ond gellir olrhain hanes gwybodaeth lysieuol i'r lleygwr i ddwy brif ffynhonnell, sef Llysieulyfr Dioscorides a Herbarium Apuleius.

Ganwyd Pedacius Dioscorides yn Anazaraba, nid nepell o fan geni'r Apostol Paul, bu'n gwasanaethu fel llawfeddyg ym myddin Rhufain tua 60 OC, ac yn ystod ei deithiau casglodd wybodaeth eang am lysiau meddyginiaethol, ac mae'r copi hynaf o'i lawysgrif i oroesi i'w weld yn Llyfrgell Frenhinol Vienna (Codex Juliana 512 OC).

Niwlog yw ein gwybodaeth am awdur Herbarium Apuleius, yr unig beth gweddol sicr yw nad person o'r enw Apuleius a'i hysgrifennodd. Credir mai casgliad o weithiau eraill ydyw ac mae'n cynnwys nifer o weddïau paganaidd (ee. i'r Fam Ddaear) yn gymysg â chynghorion llysieuol. Credir i'r llawysgrif wreiddiol gael ei hysgrifennu tua 400 OC.

* * * *

YSGRIFENNWYD y llawysgrifau gwreiddiol mewn Groeg, yna fe'u cyfieithwyd i Ladin, ac rydym yn ddyledus i'r mynachlogydd am ddiogelu llawer o ddysg trwy'r Oesoedd Tywyll i'r Canol Oesoedd.

Roedd yn draddodiad gan y myneich i gopïo llawysgrifau o genhedlaeth i genhedlaeth. Roedd y dull a arferid gan y copïwyr o ddibynnu ar ddarllenwr yn ddiffygiol am ei fod yn arwain at gamgopïo, a thros gyfnod cynyddai'r gwallau. Y canlyniad gydol y canrifoedd oedd dirywiad yn y testun, ac erbyn y 12ed ganrif roedd rhannau helaeth o gynnwys y llawysgrifau Groeg a Lladin yn annealladwy.

Ond trwy ffawd digwyddodd helynt crefyddol a fu'n gyfrifol am achub y sefyllfa. Yn 428 OC penodwyd Nestorius yn batriarch Caergwstennin, ond mewn byr amser cafodd ef a'i ddilynwyr eu herlid i'r anialwch. Ei drosedd oedd gwrthod cydnabod fod y Forwyn Fair yn fam i Dduw, mynnai ef mai mam yr Iesu oedd wedi ei eni'n ddyn ydoedd.

Wedi cyfnod yn yr anialwch a chyrraedd Gondisapor ym Mhersia sefydlodd y Nestoriaid ganolfan feddygol a fu'n grud i Feddygaeth Islam, a daethant â'r llawysgrifau Groegaidd gyda hwy.

Yn naturiol fe'u cyfieithwyd i Arabeg, a bu'r copïwyr Islamig yn llawer mwy gofalus, gyda'r canlyniad fod testunau dibynadwy wedi eu diogelu i ni.

Gyda dyfodiad printio cynyddodd nifer llysieulyfrau, a gwelwyd eu hoes aur yn yr 16eg ganrif. Yn hanner cyntaf yr 16eg ganrif cyfieithodd Elis Gruffudd, y milwr o Galais, nifer o gynghorion llysieuol o'r Ffrangeg, yn ogystal â chyfieithu y testun meddygol, Castell yr Iechyd (Syr Thomas Elyot).

Ym mhumdegau'r ganrif ymddangosodd llyfrau llysiau gan Leonard Fusch, Rambert Dodoens a William Turner; cynnwys y rhain oedd ffynonellau Llysieulyfr William Salesbury yn ôl Mr E Stanton Roberts. Ysgrifennodd William Salesbury ei waith tua saith degau'r ganrif, a bu'r llawysgrif ym meddiant Tomos Wiliems, Trefriw.

Gwyddys i'r periglor-feddyg yntau ysgrifennu ar yr un pwnc, ond nid oes sicrwydd pa le y mae'r testun hwnnw.

Ar ddiwedd y ganrif cafwyd casgliad arall a argraffwyd yn 1914 wedi ei olygu gan Timothy Lewis, yn dwyn y teitl *A Welsh Leech Book*.

* * * *

ARAF fu datblygiad printio yn Gymraeg, o leiaf hyd ddechrau'r 18ed ganrif. Mewn traethawd diddorol ar y farchnad lyfrau yng Nghymru (yn Libri Walliae) ceir trafodaeth am argraffu llyfrau Cymraeg yn y cyfnod o 1546 i 1691, a rhoddir rheswm digonol am brinder llyfrau, sef 'Y gwir yw nad oedd printio llyfrau Cymraeg yn y cyfnod yma yn ariannol lwyddiannus yn fasnachol''.

Gydol y ganrif ganlynol argraffwyd pedwar llyfr o gynghorion meddygol sydd o ddiddordeb arbennig i leygwyr. Nid yw'r un o'r pedwar yn llysieulyfr pur, ond fel y mwyafrif o'r math yma o lyfr maent yn cynnwys disgrifiadau o afiechydon a rheolau cadw'n iach.

Y cyntaf a ddaeth o'r wasg oedd *Yr Hyfforddwr Meddygol* gan Richard Reece MD (1816), wedi ei gyfieithu o'r Saesneg er budd i'r Cymry uniaith.

Ni wn am unrhyw lyfr arall sydd yn cyfeirio at frech yr ieir fel brech y moch. Mae'n bur debyg fod llyfr Richard Reece gyda'r cyntaf o'i fath yn Gymraeg.

Yn yr Amwythig yn 1759 argraffodd Stafford Prys *Y Prif Feddyginiaeth, sef Phisigwriaeth yr Oesoedd Gynt, neu ffordd hawdd a Naturiol i Iachau y rhan fwyaf o Glefydau*. Cyfieithiad o *Primitive Physic*, John Wesley ydyw.

Yn ôl ei dystiolaeth ei hun symbylwyd yr awdur i'w ysgrifennu gan yr angen am leddfu dioddefaint ei oes, ac mae'r llyfr yn cynnwys syniadau diddorol. Nid y lleiaf o'i gampau oedd iddo ragflaenu Curiad Calon Cymru o ddwy ganrif a hanner gyda rhaglen i sicrhau iechyd da.

Cyfieithydd llyfr Wesley oedd John Evans o'r Bala, gŵr fu yn ei dro yn fwynwr, gwehydd a rhwymwr llyfrau. Roedd yn bregethwr gyda'r Calfiniaid, ac yn ôl R T Jenkins bu'n 'llaw ddeheu' i Thomas Charles pan ddaeth gyntaf i'r Bala.

Yn 1770 sefydlodd Ioan Ross argraffdy yng Nghaerfyrddin, a'r flwyddyn ganlynol cyhoeddodd *'Pob dyn ei Physygwr ei Hun. Yn ddwy ran'*. Mewn llythyr at y darllenydd pwysleisir nad 'dychmygiad Co(e)g-feddygon tra anwybodus' yw'r cynnwys ond 'gwaith Gwyr Enwog, Pen Physygwyr ei hoesoedd'. Terfyna'r llythyr gydag englyn

*Iechyd wna'm bywyd mewn byd, — yn anwyl,*
*Dymunol a hyfryd;*
*Ond os nychi heb iechyd,*
*Beth dal im' hyn o fyd.*

Ceir cynghorion ar gyfer pobl yn y rhan gyntaf, ac yn yr ail ar gyfer anifeiliaid. Mae trefn y llyfr yn dwyn i'm cof lyfr tebyg yn Saesneg a brintiwyd yn 1656, sef *The Art of Simpling* gan William Coles, ac yn arbennig cyngor at drin mul yn dioddef o iselder ysbryd, sef rhoddi aethnen iddo!

* * * *

RWYF yn cynnwys y pedwerydd llyfr oherwydd ei faint. Mae *'Y Meddyginiaeth Deuluaidd'* (tua 1780) yn gyfrol drwchus o bron i 700 o dudalennau. Trosiad yw o *Domestic Medicine*, Dr William Buchan MD, cyfrol oedd yn boblogaidd iawn yn Lloegr.

Y cyfieithydd oedd Hugh Jones, Maesglasau, cyfieithydd gwaith Flavius Josephus fel y mynna'r broliant ein hatgoffa.

Yn y 19eg ganrif daeth llu o lysieulyfrau teuluaidd o'r wasg, rhai yn cael eu gwerthu yn rhannau, ac eraill a theitlau hynod, fel *'Y Glust ar Tafod sef rhannau o'r ty yr ydym yn byw ynddo'* gan y Parch Robert Evans, Aberdar (1875) a *'Y Doctor'* gan Ioan Dderwen o Fôn (1898). Yn ffortunus ni chyflawnodd y Parch Robert Evans ei fygythiad i ysgrifennu ail gyfrol ar *'Y Llygad a'r Llaw'*.

Yn 1849 argraffodd E Griffiths, Abertawe, ei waith ar y cyd â R Price, Cwmllynfell, *Y Llysieulyfr Teuluaidd*, cyfrol fu'n boblogaidd iawn. Roedd y gyfrol wedi ei rhannu'n ddwy ran, y naill yn traethu am brif lysiau Cymru a'r llall yn atodiad yn rhoddi arwyddion amrywiol glefydau.

Yn y Gogledd yn 1818 argraffodd L E Jones, Caernarfon *Herbal neu Lysieulyfr* gan D T Jones, wedi ei gasglu allan o waith yr enwog Nicholas Culpepper. Yn 1862 ail argraffwyd y llyfr hwn gan H Humphreys, Caernarfon wedi ei rwymo ynghyd â *Llysieuaeth Feddygol* gan John Parry, Tre'rgarth.

Ar wyneb ddalen *Llyfr Dail yr hen Dr D T Jones* mae adnod o lyfr y Brenhinoedd, 'Llefarodd hefyd am brenau, o'r cedrwydd sydd yn Libanus, hyd yr isop a dyf allan o'r pared', ac mae'n bur debyg fod unrhyw gyfeiriad at y Beibl yn y ganrif ddiwethaf yn ychwanegu at awdurdod unrhyw weithgaredd.

Nid oes ofod i ymdrin â chyfrolau eraill o'r ganrif ddiwethaf, a dichon y daw cyfle eto i ymdrin â rhai llawysgrifau a ysgrifennwyd yn yr ieithoedd brodorol rhwng y 10ed a'r 13eg ganrif.

Prin yw cynnyrch yr ugeinfed ganrif, nid oes un gyfrol gynhwysfawr ar lysiauaeth feddygol wedi ei chyhoeddi yn Gymraeg yn ein cyfnod modern. Prif bwrpas yr ychydig sylwadau uchod yw gobeithio symbylu rhywun i gywiro'r sefyllfa hon.

## YR AMSERAU

OHERWYDD anhwylder bu'n rhaid i P. H. Jones ohirio danfon ei bennod ar hanes *Yr Amserau* tan y rhifyn nesaf o'r *Casglwr*.

## Y DDARLITH

TRADDODIR darlith flynyddol Cymdeithas Bob Owen yn y Babell Lên am ddeg o'r gloch fore Gwener yn y Brifwyl yn y Wyddgrug.

Y darlithydd fydd Geraint H. Jenkins, Aberystwyth a'r testun — Thomas Wynne, Bronfadog a Chaerwys, crynwr, heddychwr a chyfaill William Penn.


**SIOP LYFRAU'R CASTELL**

**Castle Street, Holt, Clwyd. LL13 9YW**

Ffôn: Farndon (0286) 270 382

C. N. ac E. J. Moore

Stoc helaeth o lyfrau ail-law a hynafol yn ogystal â chyfrolau o ddiddordeb Cymreig.

*Cofiwch ymweld â'n stondin ar Faes Eisteddfod Yr Wyddgrug, Stondin rhif 1323*